BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

# Adroddiad Cynllun yr Iaith Gymraeg 2024



Rhian Lloyd gyda disgyblion yn Ysgol y Cwm

Sefydlwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg ym 1997 gyda'r bwriad o hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut yn yr Ariannin. Bob blwyddyn, mae'r British Council yn anelu at anfon dau athro o Gymru i dreulio blwyddyn academaidd gyfan yn gweithio ym Mhatagonia, gan ddatblygu'r iaith mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy addysgu pobl ifanc ac oedolion yn ffurfiol yn y dair ysgol ddwyieithog a chanolfannau addysgu oedolion, a thrwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol. Mae Cydlynydd Addysgu parhaol o Gymru, sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysgu, hefyd wedi'i leoli ym Mhatagonia. Mae'r cyllid hefyd yn cynnal y rhwydwaith o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth, gan ddarparu cymorth addysgu i'r ysgolion dwyieithog ac i addysgu oedolion.

Ariennir Cynllun yr Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru ac fe'i rheolir gan y British Council.

## Llwyddiannau 2024-25

- 1 athro o Gymru (Ebrill 2024 – Tachwedd 2024)
- 1 Athro yn Gydlynydd ym Mhatagonia
- 1 cydlynydd digidol yng Nghymru (rhan amser)
- 20 neu fwy o diwtoriaid lleol ym Mhatagonia
- Llwyddodd 19 o fyfyrwyr yn arholiadau CBAC
- 1106 o ddysgwyr cofrestredig (ysgolion a dysgwyr sy'n oedolion)

## Recriwtio ar gyfer lleoliadau 2025

Dechreuodd y broses recriwtio ar gyfer lleoliadau 2025 ym mis Gorffennaf 2024, er mwyn digwydd ar yr un pryd â'r Eisteddfod Genedlaethol. Derbyniwyd 7 cais, ac roedd pob un o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan bobl oedd yn athrawon neu'n diwtoriaid i oedolion bryd hynny, neu'n bobl iau oedd â llai o brofiad addysgu. Cafodd 6 eu cyfweld ac roedd 3 o'r rhai gafodd gyfweliad yn addas ar gyfer eu penodi. Yn dilyn y broses ddethol, cynigiwyd swyddi i Anna ap Robert a Lleucu Haf.

Mae Lleucu yn athrawes dosbarth derbyn yn Ysgol Rhydypennau yn Aberystwyth a bydd wedi'i lleoli yn Ysgol y Cwm yn Nhrevelin ac mae Anna yn diwtor Cymraeg i Oedolion a bydd yn addysgu myfyrwyr ac oedolion yn y Gaiman.

https://nation.cymru/feature/aberystwyth-family-set-off-to-champion-the-welsh-language-in-patagonia/

Cyn gadael am Batagonia, cynhaliwyd sesiwn briffio undydd yng Nghaerdydd ym mis Ionawr 2025, gan drafod pynciau megis gweithdrefnau mewnfudo ac addysgu ym Mhatagonia. Cyflwynwyd y sesiwn ar Teams gan Clare Vaughan. Hefyd cafwyd sesiwn ar fywyd ym Mhatagonia gan athrawon a fu yno o'r blaen, sef Marian Brosschot (2020) a Rhian Lloyd (2024).

Teithiodd Anna a Lleucu i Batagonia ym mis Chwefror 2025, gan dreulio deg diwrnod ym Muenos Aires yn trefnu eu trwyddedau angenrheidiol ar gyfer gweithio a phreswylio, gyda chefnogaeth gan British Council yr Ariannin ac Ernst and Young ym Muenos Aires. Wedi hynny, teithiodd y ddwy ymlaen i Trevelin a Threlew i ddechrau ar eu gwaith.

Amserlenni ar gyfer Lleucu ac Anna - 2025

Lleucu Haf

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Bore | 7.40 - 9.00 Blwyddyn 1<br>11.35 – 12.55 Blwyddyn 4 - Ysgol y Cwm | 9.15 – 9.55 Staff - Ysgol y Cwm | 7.40 – 9.00 Blwyddyn 1 -<br>11.35 – 12.55 Blwyddyn 4 - Ysgol y Cwm | 7.40 – 9.45 Blwyddyn 4<br>10.45 – 12.55 Blwyddyn 1 - Ysgol y Cwm | 7.40 -9.00 Blwyddyn 1 -<br>9.15 – 11.25<br><br>Cynllunio gyda'r staff -<br>11.35 – 12.55 Blwyddyn 4 - Ysgol y Cwm |
| Prynhawn | 16.00 – 17.30 Mynediad 2, Esquel | | | 16.00 – 17.30 Mynediad 1 - Esquel | |
| Min nos | 18.00 – 19.30 Mynediad 2 - Esquel | 19.00 – 20.00 Clwb Plant - Esquel | | | 18.30 – 20.00 Clwb Plant - Esquel |

Anna ap Robert

| | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Bore | 8 – 12.00 Ysgol Gymraeg Y Gaiman | 9.30 -11.30 Ysgol yr Hendre, Trelew | | 8.00 – 9.30 Uwch - Coleg Camwy<br><br>10.00 – 12.00 Ysgol Bryn Gwyn | 8.00 – 9.30 Uwch - Coleg Camwy |
| Prynhawn | 13.30 - 14.30 Blwyddyn 5 - Coleg Camwy | 13.00 – 15. — Ysgol yr Hendre, Trelew<br>15.30 -17.00 Sgwrsio - Trelew | 13.00 – 16.30 Mynediad - Rawson | 14.00 – 15.30 Mynediad - Dolavon | 13.00 – 15.00 Gemau buarth - Ysgol Gymraeg Y Gaiman<br><br>16.00 – 17.00 Sgwrsio - Gaiman |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 14.30 - 15.30 Mynediad - Gaiman<br><br>17.00 - 18.00 Uwch - Gaiman | 17.30 -18.30 Mynediad - Trelew | | | |
| Min nos | | 18.30 – 19.30 Clwb Plant - Trelew | | 18.30 – 19.30 Grŵp paratoi ar gyfer arholiad - Gaiman | Unwaith y mis - Porth Madryn |




Athrawon yng nghyfarfod briffio cyn ymadael British Council Cymru

### Niferoedd y disgyblion a’r dysgwyr sy'n oedolion

Canfuwyd bod 1106 o ddysgwyr cofrestredig, mewn archwiliad o niferoedd y disgyblion a’r oedolion sy’n ddysgwyr ar ddiwedd mis Rhagfyr 2024. Er bod hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â’r cyfanswm o 1411 o ddysgwyr a ganfuwyd yn 2019, cyn y pandemig, mae'n gynnydd sy’n cael ei groesawu pan y cymherir â niferoedd y llynedd, sef 970. Rhoddir dadansoddiad mwy manwl yn adroddiad Clare Vaughan isod.

## Tiwtoriaid lleol

Rheolir rhwydwaith y tiwtoriaid lleol a’r staff cymorth yn yr ysgolion ym Mhatagonia gan Rebecca White, gyda chymorth Coleg Camwy. Er y gall nifer y tiwtoriaid amrywio o fis i fis yn ôl argaeledd, mae o leiaf 20 tiwtor wedi bod yn addysgu bob mis, yn rhan o Gynllun yr Iaith Gymraeg yn yr ysgolion dwyieithog a’r tu allan i’r ysgolion hyn. Mae'r Cynllun yn dibynnu'n fawr ar y rhwydwaith hwn i arwain dosbarthiadau oedolion a pharhau â'r gwaith hanfodol yn y dair ysgol ddwyieithog.

Telir cyflogau fesul awr y tiwtroiaid hyn yn rhannol gan Gynllun yr Iaith Gymraeg. Maent hefyd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan yr ysgolion (ffioedd ysgol sy’n cael eu talu gan deuluoedd y disgyblion) a llywodraeth Chubut. Oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol yn yr Ariannin, fodd bynnag, mae ysgolion yn wynebu toriadau cyllidebol difrifol a chyfyngiadau ariannol, felly mae cyllid Cynllun yr Iaith Gymraeg yn hanfodol er mwyn cynnal parhad ymhlith y rhwydwaith hwn.

Fodd bynnag, un datblygiad arwyddocaol eleni yw creu cwrs trydyddol er mwyn hyfforddi’r athrawon ac athrawon y dyfodol i addysgu'r Gymraeg. Ar ôl cydnabod yr angen am athrawon Cymraeg o fewn

yr ysgolion, mae llywodraeth Chubut yn ariannu ac yn cyflwyno'r cwrs 4 blynedd yn y Gaiman a Threvelin o fis Mawrth 2025. Ar hyn o bryd mae 65 o bobl wedi cofrestru a bydd y cwrs yn ymdrin ag ymarfer addysgu'r iaith Gymraeg, addysgeg, didacteg, hanes a diwylliant. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y cwrs hyfforddi hwn, sydd yn gydnabyddiaeth gan lywodraeth Chubut o'r angen i hyfforddi athrawon Cymraeg yn yr Ariannin yn y dyfodol. Dyma oedd un o brif amcanion y Prosiect pan gafodd ei sefydlu ym 1997 ac mae hyn yn dystiolaeth glir o'i lwyddiant, gan fod y system addysg yn helpu i ddiogelu iaith Gymraeg a'i thwf a diwylliant Cymraeg yn y rhanbarth.

Quedó inaugurado el Profesorado de Galés en Gaiman y Trevelin - Últimas Noticias: El Chubut

## Staff Prosiect yr Iaith Gymraeg

Marian Brosschot

O fis Ebrill i fis Rhagfyr 2024, mae Marian wedi parhau i greu cynnwys digidol ar gyfer y Cynllun ar ei Sianel You Tube "Gales Con Marian" (Cymraeg gyda Marian), gan gynnwys rhannu fideos o Gymru ar flog er mwyn i ddysgwyr eu gweld mewn cyd-destun Cymreig. Gellid defnyddio'r rhain yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth, a hefyd gan fyfyrwyr o'r tu allan i ddalgylch Chubut. Mae'r adnoddau digidol wedi llwyddo i ddenu diddordeb pobl sy'n newydd i ddysgu Cymraeg yn ogystal â chefnogi myfyrwyr presennol ac uwch.

Ar ôl cwblhau'r holl gyfieithiadau Sbaeneg o lyfrau'r cwrs addysgu'r Gymraeg, mae Marion bellach wedi gadael y Prosiect i ganolbwyntio ar ei PhD mewn Ieithyddiaeth, ond bydd yn parhau i gynhyrchu fideos ar gyfer ei sianel YouTube a chynorthwyo gyda recriwtio athrawon bob haf yn yr Eisteddod Genedlaethol.




## Adroddiad gan Clare Vaughan, Cydlynydd Addysgu, Trevelin, Patagonia

Athrawon a Recriwtio

Yn dilyn blwyddyn pryd na welwyd ond un athrawes yn gadael Cymru am Batagonia yn rhan o'r Cynllun, sef Rhian Lloyd, a dreuliodd y flwyddyn yn yr Andes, ym mis Hydref 2024 cynhaliwyd y recriwtio ar gyfer yr athrawon a oedd i ddod allan i Batagonia ym mis Mawrth 2025. Roedd derbyn saith cais, a phob un o'r rhain heblaw am un yn deilwng o gyfweliad, yn brofiad cadarnhaol iawn.

Roedd tri ymgeisydd cryf iawn ac roedd yn siom mai dim ond dwy swydd y gellid eu cynnig, gan nad yw'r cyllid presennol yn ddigonol ar gyfer mwy na chyflog dau athro, oherwydd costau teithio, yswiriant, fisa ac ati. Felly, mae penderfynu ble mae'r athrawon o Gymru yn cael eu lleoli yn broses heriol, gan fod ar gymunedau'r Andes, sef Trevelin ac Esquel angen athro, yn ogystal â’r Gaiman a Threlew. Gall y Gaiman a Threlew rannu athro yn ddaearyddol, ond mae mwy na digon o waith i 2 athro yma, nid yn unig oherwydd bod dwy ysgol gynradd ddwyieithog (Cymraeg a Sbaeneg) yn yr ardaloedd hyn, ond hefyd gan fod amrywiaeth o gymunedau llai (Porth Madryn, Rawson, Dolavon) sydd hefyd yn elwa o fewnbwn gan athrawon proffesiynol o Gymru.

Mae dwy o'r tair ysgol gynradd wedi cyflogi eu hathrawon eu hunain yn y gorffennol, gan gydweithio â nhw yn yr ysgol yn unig, ac mae'r effaith y maent wedi'i chael wedi bod yn nodedig. Yn anffodus, mae'r sefyllfa economaidd yn parhau i fod yn bryderus yn yr Ariannin ac mae'r ysgolion yn cael trafferthion oherwydd cyllid isel ac adnoddau annigonol. Dechreuodd Rhian Lloyd sawl gweithred ddiddorol a phwysig y llynedd yn rhan o’r Cynllun yn Ysgol y Cwm ac mae'n hanfodol bod ei holynydd yn parhau â’r gwaith hwn yn 2025. Rydym yn gweithredu ar lefel llawer is nag erioed o’r blaen yn hanes y prosiect a byddai gallu dychwelyd i'r ‘hen’ drefn o gynnal tri athro yn hwb mawr.

Mae'r ddwy athrawes wedi'u lleoli mewn mannau sydd â'r angen mwyaf o fewn eu hardal ddaearyddol ac mae'n amlwg bod y pwyslais yn yr Andes ar y gwaith yn yr ysgol. Dim ond amser cyswllt gyda dau grŵp blwyddyn sydd gan Lleucu, er ei bod yn cynnal sesiynau cynllunio gyda'r athrawon lleol yn yr ysgol. Mae'r gwaith gydag oedolion yn Nhrevelin yn wan oherwydd maint yr ymdrech a wnaed gyda’r bobl ifanc. Serch hynny, mae'n amhosibl i'r athro neu athrawes o Gymru gynnig dosbarthiadau i bawb. Yn Esquel, mae’r sefyllfa bron i'r gwrthwyneb, gan fod niferoedd y plant yn isel a detholiad o ddosbarthiadau ar gyfer oedolion yn cael eu cynnal gan diwtoriaid lleol, ond gyda mewnbwn hanfodol gan yr athro o Gymru.

Mae amserlen Anna yn y Dyffryn yn adrodd stori wahanol. Mae hi’n gweithio ym mhob ardal gyda plant, pobl ifanc ac oedolion mewn pum lleoliad daearyddol gwahanol yn ystod yr wythnos! Bydd y newid a'r teithio cyson hwn yn cael effaith ar yr athrawes yn ystod y flwyddyn ac mae mwy na digon o waith ar gyfer o leiaf un athro arall yma. Mae gwaith y tiwtoriaid lleol yn hanfodol ar gyfer parhad yr amrywiaeth o ddosbarthiadau oedolion, ond mae rôl y gweithiwr proffesiynol arbenigol o Gymru yn hynod bwysig.




<u>Dysgwyr sy'n oedolion</u>

Ymddengys bod perthynas uniongyrchol rhwng athrawon o Gymru sy'n bresennol yn y dalgylchoedd ac oedolion sy'n dymuno dysgu'r iaith. Mae cael rheswm 'go iawn' i ddysgu'r iaith yn hanfodol, yn enwedig gan ei bod bron yn amhosibl i bobl deithio o'r Ariannin i Gymru heb gynllunio sylweddol ymlaen llaw a chefnogaeth ariannol.

Yn y Gaiman, roedd athrawes a gyflogwyd gan yr ysgol gynradd ac athrawes a oedd wedi parhau yno wedi i'w chontract gyda'r British Council ddod i ben, a gwelwyd cynnydd enfawr yn y niferoedd yno ar sail y cymhelliant newydd hwn ac argaeledd dosbarthiadau ar adegau cyfleus. Heb gefnogaeth gyson, dim ond parhau am flwyddyn y mae'r gweithgareddau hyn ac yna maent yn diflannu. Mae angen sicrhau mwy o barhad.

Mae'r sefyllfa economaidd yn cael effaith uniongyrchol ar niferoedd y dysgwyr sy'n oedolion hefyd, gan fod yn rhaid i fwy o bobl gyflawni gwahanol swyddi er mwyn ceisio cael dau ben

llinyn ynghyd ac felly mae moethbethau, megis dysgu iaith, yn dod yn ail i ennill cyflog byw.

Mae canolbwyntio ymdrechion y cynllun ar y bobl ifanc wedi arwain at leihau'r pwyslais ar ddysgwyr sy'n oedolion. Byddai'n ddelfrydol cael athro sy'n arbenigo mewn addysgu plant ac athro sy'n arbenigo mewn addysgu oedolion, er mwyn mynd i'r afael â'r cydbwysedd.

Mae mwyafrif helaeth y dosbarthiadau oedolion wedi'u hanelu at lefel A1, sy'n awgrymu nad oes llawer o ddysgwyr yn cyrraedd lefel siaradwr brodorol. Mae gan athrawon proffesiynol o Gymru'r sgiliau sy'n angenrheidiol i allu darparu'r cymhelliant a'r addysgu i fyfyrwyr, ond weithiau mae yna ddiffyg twf pan fydd myfyrwyr yn symud o un athro i'r llall a maent yn dechrau eu llwybr tuag at ddysgu'r iaith, mor agos at ble dechreuon nhw y neu gwersi cyntaf un.

<u>Arholiadau CBAC</u>

Mae'r arholiadau'n cynnig cymhelliant i barhau i astudio ac i gyrraedd lefel benodol, gan eu bod yn dilyn lefelau'r cyrsiau a ddysgir yng Nghymru a'r Wladfa.

| Lefel | Ymgeiswyr | Llwyddo |
|---|---|---|
| MYNEDIAD A1 | 22 | 19 |
| SYLFAEN A2 | 6 | 4 |
| CANOLRADD B1 | 2 | 2 |
| Canran y Gyfradd Lwyddo yn gyffredinol: 83% | | |

Mae mor bwysig gallu cynnig arholiadau CBAC fel opsiwn i'r myfyrwyr sydd yn eu harddegau a'r rhai sydd yn oedolion, gan fod hyn yn rhoi'r iaith Gymraeg ar yr un lefel â Saesneg, lle mae sefyll arholiadau rhyngwladol yn nodi taith myfyrwyr o un lefel i'r nesaf. Mae hefyd yn ffordd o ysgogi myfyrwyr i symud o un lefel i'r nesaf ac yn ffordd o fesur cynnydd ar raddfa a ddefnyddir yng Nghymru.

<u>Niferoedd y dysgwyr yn 2024</u>

| Adran | Nifer |
|---|---|
| DISGYBLION | |
| Meithrin | 142 |
| Cynradd: 6 – 12 oed | 456 |
| Uwchradd | 303 |
| Allgyrsiol | 17 |
| Is-gyfanswm | 918 |
| OEDOLION | |
| Mynediad A1 | 130 |
| Sylfaen A2 | 10 |
| Canolradd B1 | 12 |
| Uwch B2 | 16 |
| Siaradwyr C1 a 2 | 20 |
| IS-GYFANSWM | 188 |
| CYFANSWM | 1106 |

Nid yw niferoedd yn unig byth yn adrodd y stori gyfan - mae yna bob amser y gwerth ychwanegol a'r effaith ar fywydau. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y niferoedd yn dal yn is nag yr oeddent cyn y Pandemig. Mae'r rhesymau y tu ôl i'r ffigurau hyn yn gymhleth ac nid yw'n hawdd tynnu unrhyw gasgliadau pendant ohonynt, ond gellir cyfeirio at y ffactorau arwyddocaol sy'n effeithio ar lawer o feysydd bywyd yn yr Ariannin, sef yr heriau economaidd difrifol y mae teuluoedd cyffredin yn eu hwynebu a globaleiddio.

Er bod chwyddiant wedi arafu'n sylweddol yn ystod y chwe mis diwethaf, mae cyflogau ar ei hôl hi ac mae'n cael ei dderbyn y bydd gan bobl fwy nag un swydd er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Yng nghyd-destun yr ysgolion dwyieithog, mae'n rhaid i'r rhieni dalu tuag at yr addysg hon, gan nad yw'r

llywodraeth yn cefnogi'r gwaith a ddechreuwyd yn gyfan gwbl, er gwaethaf y ffaith bod y tair ysgol yn rhan o'r system ac yn gorfod dilyn rheoliadau a osodwyd gan y llywodraeth. Wrth i incwm gwario leihau, yn anffodus nid yw llawer o rieni sy'n cefnogi'r syniad o addysg ddwyieithog yn Sbaeneg a Chymraeg yn gallu cyfrannu'r ffi angenrheidiol ac mae'n rhaid iddynt dynnu eu plant allan o'r ysgolion.

I ddysgwyr sy'n oedolion, er bod y ffi am y dosbarthiadau Cymraeg yn fach iawn, mae'r gormodedd o oriau gwaith yn golygu ei bod bron yn amhosibl trefnu amserlen a all gynnwys pawb sy'n dymuno dysgu'r iaith ac mae'n rhaid i bobl flaenoriaethu sut i dreulio eu hamser rhydd.



Yr Eisteddfod Ysgol yn Ysgol y Cwm

Mae’r diffyg ysgoloriaethau i fyfyrwyr deithio i Gymru wedi cael effaith negyddol ar ysbryd y dysgwyr. Mae pris tocyn awyren i Gymru a llety yn ystod cwrs, ymhell tu hwnt i freuddwydion llawer o fyfyrwyr ifanc ac os yr ystyriwn y tiwtoriaid lleol sydd wedi bod yn ymroddedig i addysgu'r Gymraeg, mae pob un ohonynt wedi teithio i Gymru ar ryw adeg ar ysgoloriaeth er mwyn gwella eu sgiliau iaith. Mae perygl bod buddiolwyr cyntaf yr ysgoloriaethau bellach yn meddwl am ymddeol ac mae prinder pobl ifanc sy’n aros i gymryd eu lle. Mae llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn gweld dysgu Saesneg, nid Cymraeg, fel llwybr dianc rhag y problemau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd yn yr Ariannin ac yn rhoi'r pwyslais ar yr hyn a fydd o ddefnydd cyffredinol iddynt. Hefyd, mae ymfudiad ymennydd sylweddol o fewn talaith Chubut i'r ardaloedd trefol mawr yn yr Ariannin, lle mae'r bobl ifanc yn mynd i astudio ac nid ydynt yn dychwelyd i'w trefi genedigol.

**<u>Casgliad</u>**

Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg yn drysor mewn byd lle mae’r mawr yn brydferth ac mae ieithoedd lleiafrifol mewn trafferthion yn fyd-eang. Tyfodd yr hyn oedd yn gynllun blwyddyn o hyd ar y dechrau yn gynllun dwy flynedd ac yna’n dair blynedd, ac erbyn hyn mae’r cynllun wedi parhau am bron i 30 mlynedd! Mae wedi adeiladu pontydd ar dir cyffredin ac wedi arwain at gyfathrebu rhwng dwy wlad a oedd ar un adeg mewn rhyfel â’i gilydd. Mae wedi hyrwyddo diwylliant Cymru ymhell y tu hwnt i derfynau’r ‘Hen Wlad’ ac wedi hwyluso sgiliau iaith i gannoedd lawer o fyfyrwyr. Mae’n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi’r cynllun unigryw hwn a phe byddai twf mewn cyllid i gyd-fynd â’r chwyddiant a’r cynnydd mewn prisiau, gallai’r cynllun gyflawni mwy hyd yn oed, dros y blynyddoedd nesaf.

## Adroddiad gan Rhian Lloyd, Athrawes, Ysgol y Cwm 2024

Mae Rhian yn gyn-Bennaeth yn Ysgol Pencarnisiog yn Ynys Môn. Treuliodd naw mis yn addysgu yn Ysgol y Cwm yn Nhrevelin, ac yn y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn Esquel, yn ystod 2024. Dyma ei hadroddiad, isod.

## Ysgol Y Cwm



Mae'r tîm bach o athrawon Cymraeg yn Ysgol y Cwm yn gweithio'n galed i sicrhau cynnydd a pharhad yn natblygiad sgiliau'r dysgwyr a chydnabuwyd cryfderau canlynol yr Adran Gymraeg:

- Mae cyfleoedd cyson i'r disgyblion integreiddio â'r gymuned a chymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys eisteddfodau - yn lleol a thu hwnt
- Mae'r athrawon yn gweithio'n ddyfal i gynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru
- Mae'r athrawon yn weithgar o ran meithrin cysylltiadau ag ysgolion Cymraeg yn y dalaith ac yng Nghymru er mwyn gwella sgiliau cyfathrebu
- Ceir cysylltiad yn aml ag ymwelwyr o Gymru
- Mae'r amserlen yn sicrhau gwersi Cymraeg dyddiol ar wahanol lefelau ar draws yr ysgol gyfan
- Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd wrth gynllunio i sicrhau cynnydd a pharhad drwy'r ysgol gyfan, gan roi sylw arbennig i gyfleoedd pontio i sicrhau cysondeb o'r cyfnod meithrin i'r cyfnod uwchradd
- Mae gwaith yn Gymraeg gan y disgyblion yn cael ei arddangos mewn llefydd amlwg i gynyddu ymwybyddiaeth rhanddeiliaid yr ysgol o arfer da
- Mae gan yr ysgol lyfrgell wych o adnoddau Cymraeg at ddefnydd cyffredinol
- Mae'r staff yn cynllunio sesiynau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored
- Mae amryw o gyfleoedd addysgu i arfer sgiliau trawsgwricwlaidd

Rwyf wedi bod yn defnyddio'r pecyn 'Tric a Chlic' bob dydd i helpu dysgwyr Blynyddoedd 1-3 wella eu dealltwriaeth o seiniau llythrennau Cymraeg a datblygu eu sgiliau wrth ynganu, darllen ac ysgrifennu geiriau Cymraeg. Rwyf hefyd wedi rhoi hyfforddiant i'r Adran Gymraeg ar gyfer defnyddio'r adnodd hwn - drwy wersi enghreifftiol a sesiynau dangos a defnyddio'r wefan a'r adnoddau. Rwyf hefyd wedi darparu ffeil Google Drive gynhwysfawr yn llawn o adnoddau digidol y gall yr Adran Gymraeg eu defnyddio yn eu dosbarthiadau. Mae'r cardiau fflach, posteri a gemau lotto a bingo oedd ar gael i mi yn adnoddau perffaith ar gyfer sesiynau adolygu byr neu sesiynau ymarfer defnyddio geiriau ac ymadroddion. Rwyf hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o adnoddau addysgol ar-lein. Mae Twinkl Cymraeg, Spotify ac YouTube wedi bod o gymorth mawr i mi o ran cyfoethogi cyflwyniadau a phrofiadau'r dysgwyr yn y dosbarth - gan gynnwys sianel Marian Brosschot, 'Gales con Marian'.

Rwy'n teimlo mai gyda Blwyddyn 6 y cefais y llwyddiant mwyaf o ran datblygu sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y grŵp hwn wedi gwneud cynnydd mawr ac mae rhai ohonynt bellach yn rhugl iawn ac yn siarad Cymraeg yn hyderus. Mae'r disgyblion hyn yn awyddus i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg newydd drwy'r amser ac mae'n amlwg bod diddordeb ganddynt i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Fodd bynnag, bu problemau ymddygiad yn rhwystr i ddatblygiad un neu ddau o aelodau'r grŵp gallu uwch hwn. Mae ymddygiad wedi bod yn destun pryder gyda'r grŵp gallu is ar adegau hefyd - yn fwy fyth felly gan fod cyfathrebu (gyda chyn lleied o Sbaeneg) yn anodd.

Yn ystod fy mlwyddyn llwyddais i greu cysylltiadau rhwng Ysgol y Cwm a sawl ysgol yn Ynys Môn (Henblas, Y Graig, Ysgol Pencarnisiog a Rhosybol). Bu hynny'n brofiad cyffrous iawn ac yn brofiad gwerthfawr i'r holl blant a staff sydd wedi cyfrannu.

Roedd cynnal eisteddfod Gymraeg yn yr ysgol am y tro cyntaf eleni yn ddigwyddiad arwyddocaol. Teimlaf drwy hynny fy mod wedi cyfrannu gweithgaredd sydd wedi cyfoethogi bywyd yr ysgol - yn enwedig yn wyneb pryderon am y dirywiad yn nifer disgyblion Ysgol y Cwm sydd wedi bod yn cystadlu mewn eisteddfodau yn y blynyddoedd diwethaf. Ymysg rhai o'r rhesymau am y dirywiad oedd: diffyg diddordeb staff y tu allan i Adran Gymraeg yr ysgol mewn cystadlaethau Cymraeg;

diffyg diddordeb ar aelwydydd llawer o'r dysgwyr; a'r ffaith mai ychydig iawn o Gymraeg a siaredir neu a glywir gan ddysgwyr y tu allan i'r gwersi Cymraeg - oherwydd diffyg hyder / gwybodaeth / dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg.

Cydnabod problem yw cam cyntaf y broses o wella sefyllfa mewn unrhyw ysgol dda. Fel Pennaeth profiadol roeddwn mewn sefyllfa i allu helpu'r Adran Gymraeg i lunio cynllun i flaenoriaethu gwelliannau a'u rhoi ar waith. Cytunodd yr ysgol yn frwd â hyn. Nod y cynllun yw ***annog yr holl randdeiliaid i weithio gyda'i gilydd i godi statws yr iaith Gymraeg yn yr ysgol a sicrhau datblygiad, cynnydd a pharhad i gynnydd sgiliau Cymraeg trawsgwricwlaidd y dysgwyr.***



Mae gan yr ysgol dîm mawr o staff (arweinwyr, athrawon, cynorthwywyr dosbarth, gweinyddwyr ayb) ond dim ond tri o staff craidd sydd yn yr Adran Gymraeg. Os yw'r Gymraeg am ffynnu yma, mae'n hanfodol bod yr holl staff yn rhan o'r broses o wireddu amcanion y prosiect. Mae bod yn gyfrifol am ddatblygu sgiliau Cymraeg 150+ o blant yn faich amhosib i'w roi ar ysgwyddau'r Adran Gymraeg yn unig. Mae cefnogaeth y Pennaeth hefyd yn allweddol i sicrhau llwyddiant unrhyw gynllun datblygu mewn ysgol. Cafodd fy nghynllun ei awdurdodi gan y Pennaeth a Phwyllgor yr Ysgol ac fe gymeron nhw gyfrifoldeb am gyrraedd y nodau a amlinellwyd. Cafodd cynnwys y cynllun ei rannu â holl staff yr ysgol, ond bu diffyg brwdfrydedd aelodau staff adrannau eraill yn faen tramgwydd i ennyn diddordeb disgyblion.

Ond, rwy'n teimlo bod cynnal Eisteddfod Ysgol y Cwm wedi profi'n drobwynt mawr i'r ysgol. Wedi wythnosau o waith caled gan yr Adran Gymraeg ac aelodau o Bwyllgor yr Ysgol fe wnaethom ni gynnal eisteddfod ysgol Gymraeg am y tro cyntaf erioed yn Ysgol y Cwm. Roedd yn fore gwirioneddol arbennig gyda chymaint o ddisgyblion yn cynrychioli eu hunain a'u Tai - ac yn mwynhau'r cyfan. Roedd cyfraniad Pwyllgor yr Ysgol yn allweddol i lwyddiant y diwrnod. Fe ddaethon nhw â chymaint o aelodau'r gymuned i mewn i helpu gyda'r beirniadu a rhannu gwobrau, a dylid eu cymeradwyo am hyn. Nawr bod y digwyddiad newydd arbennig Cymraeg hwn yn rhan o galendr yr ysgol, rwy'n hyderus y bydd Eisteddfod Ysgol y Cwm yn mynd o nerth i nerth. Bydd y Cynllun Datblygu a'r Eisteddfod yn cael eu rhoi yn nwylo'r athro nesaf a ddaw yma ar gyfer 25-26 i sicrhau parhad.

Ond y tu hwnt i'r Adran Gymraeg, mae wedi bod yn anodd ar adegau i gael dealltwriaeth o'r darlun ehangach o ran yr ysgol gyfan. Mae'r sianelu cyfathrebu yn gallu bod ychydig yn aneglur ac yn angyson â'i gilydd - sy'n gallu bod yn rhwystredig; ond mae'n rhaid i minnau dderbyn gwahaniaethau diwylliannol a gwahaniaethau o ran sut y gwneir pethau yn yr Ariannin.



**Canolfan Addysg Oedolion Esquel**

Roedd darparu gwersi i oedolion yn brofiad newydd i mi. Ond wedi dilyn canllawiau proffesiynol gan y tîm o diwtoriaid Cymraeg yma, rwyf nawr yn mwynhau darparu'r sesiynau'n annibynnol. Mae'r dysgwyr yn gyfeillgar a chymdeithasol, ac rwy'n edmygu eu brwdfrydedd, ymroddiad a'u hymdrech wrth ddysgu iaith eu neiniau a'u teidiau'n fawr iawn. Mae'r adnoddau a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn hanfodol ar gyfer fy ngwaith yn helpu'r myfyrwyr; maent yn gosod cynllun syml a chlir sy'n sicrhau

cynnydd a dilyniant wrth addysgu. Rwyf mewn cyswllt parhaus â'r tiwtoriaid eraill fel ein bod yn gwirio cynnydd ein dysgwyr yn erbyn unedau'r ddogfen.

Mae'r ystafelloedd dosbarth yng Nghanolfan Esquel yn cynnig amgylchedd addysgu a dysgu fodern, ysgogol a chyfforddus lle mae gennyf fynediad at adnoddau gwerthfawr (llyfrau ac adnoddau ar-lein) ar gyfer cyflwyno gwersi. Mae llyfrgell arbennig iawn yn y ganolfan sy'n cynnwys amrywiaeth o lenyddiaeth Gymraeg i bob oed - cyfrolau ffeithiol a ffuglen, modern a chlasurol. Rwy'n llawn edmygedd o angerdd ac ymroddiad y curaduron a'u gofal trylwyr o'r casgliad arbennig hwn a'u gwaith parhaus yn sicrhau bod y llyfrgell arbennig hon cael ei chynnal a'i datblygu. Mae Canolfan Esquel yn cynnal Grŵp Clonc wythnosol yn llyfrgell y ganolfan sy'n agored i'n holl ddysgwyr Cymraeg. Mae hwnnw'n gyfle hyfryd i mi gwrdd ag aelodau eraill y gymuned a mwynhau sgyrsiau anffurfiol.

### Y Dyffryn

Roeddwn mewn cysylltiad parhaus â'm cydweithwyr yn y Dyffryn a datblygais berthynas agos â nhw. Rydym wedi mwynhau llawer o gyfleoedd i gydweithio a chynllunio - o ran ein swyddi a gyda'n profiadau. Wrth fynychu Eisteddfod y Bobl Ifanc yn Y Gaiman ym mis Medi cefais gyfle i dreulio amser yn Ysgol Y Gaiman a Choleg Camwy ac ymweld ag ysgolion a dosbarthiadau. Rhoddodd y profiad fewnwelediad gwerthfawr i mi o ethos ac amgylchedd addysgu a dysgu mewn lleoliad gwahanol. Mae gan Ysgol y Gaiman nifer fawr o staff sy'n siarad Cymraeg ac mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol. Roedd paratoi ar gyfer Eisteddfod Chubut - y mwyaf o'r holl eisteddfodau - yn sicr yn uchafbwynt i mi. Roeddwn i wirioneddol yn teimlo'n rhan o'r gymuned Gymraeg yn yr wythnosau cyn ac yn ystod yr ŵyl.

### Myfyrwyr Ysgoloriaeth Cymraeg

Mwynheais fentora'r 6 Myfyriwr Cymraeg oedd ar ymweliad â'r Andes o Brifysgol Caerdydd eleni yn fawr iawn. Gwnaeth pob un ohonynt gyfraniad brwdfrydig i'r gwersi Cymraeg yn Ysgol y Cwm ac yng Nghanolfan Esquel. Gweithiais yn galed i sicrhau bod amser pob un ohonynt yma'n brofiad cadarnhaol, gan ddarparu amserlen fanwl iddynt ar gyfer y pythefnos cyfan i sicrhau eu bod yn cael amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd.

## Casgliad

Mae gwneud gwelliannau i ddulliau cyfathrebu yn y gymuned Gymraeg leol yn hanfodol i sicrhau tryloywder ac eglurder i bawb ohonom sy'n gweithio tua'r un nodau. Mae gormod o benderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud ar grwpiau WhatsApp. Mae gwybodaeth yn aml yn cael ei golli o grŵp i grŵp sy'n golygu bod unigolion yn aml yn teimlo'u bod yn cael eu cau allan neu'n cael gwybodaeth anghywir. Byddai creu gwefan neu dudalen facebook ganolog yn un gwelliant posib - yn rhestri aelodau'r Gymdeithas, y Cadeirydd a'r swyddogion. Dylai manylion cyswllt e-bost uniongyrchol yr Ysgrifennydd fod ar gael yn gyhoeddus yn ogystal â dyddiadau cyfarfodydd a modd i gael mynediad at gofnodion cyfarfodydd blynyddol ar gais. Byddai hynny'n sicrhau bod modd i bawb gael gwybodaeth a bod manylion cyswllt uniongyrchol ar gael i unrhyw un o'r tu allan sydd am gyfathrebu â'r Gymdeithas.

Ond er gwaethaf yr anawsterau a'r heriau, mae gweithio yma wedi bod yn brofiad bendigedig. Rwyf wedi dysgu llawer iawn amdanaf fy hun, diwylliannau eraill a'r byd o'm cwmpas. Mae wedi bod yn brofiad sydd wedi newid fy mywyd. Mae cefnogaeth Cynllun yr Iaith Gymraeg a staff yr ysgol wedi bod yn hanfodol i fy llesiant, ac mae rhai o'r staff Archentaidd yn yr ysgol yn athrawon Cymraeg gwirioneddol wych ac mae eu hymroddiad i'r Cynllun yn rhyfeddol. Rwyf wedi cwrdd â chymaint o bobl gyfeillgar, caredig a chefnogol yn y gymuned ehangach. Rwy'n eithriadol o falch fy mod wedi cael y profiad arbennig hwn a fy mod nawr yn chwarae rhan weithredol yn arfer gyfoes y maes addysg Gymraeg, ac yn gallu cefnogi a chryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith yn Chubut.

BRITISH COUNCIL | Wales Cymru

